# Gwesty Trychfilod
# gan Anni Llŷn
## Bug Hotel

1. Roedd Cyw a Triog wedi bod yn brysur ers dyddiau yn creu gwesty trychfilod yn yr ardd. Roedd y gwesty'n llawn brigau, mwsog, dail a darnau o risgl ac yn llawn tyllau a chorneli tywyll.

1. Cyw and Triog had been busy for days creating a bug hotel in the garden. The hotel was full of twigs, moss, leaves and pieces of bark, with lots of holes and dark corners.

2. Roedd yn llwyddiant mawr. Roedd pawb eisiau aros yn y gwesty; y falwoden, y morgrug, y fuwch goch gota a'r chwilen.

2. It was a great success. Everyone wanted to stay in the hotel: the snail, the ants, the ladybird and the beetle.

3. Ond roedd y gwesty mor boblogaidd, doedd dim lle i bawb. "Mae gen i syniad!" meddai Cyw.

3. But the hotel was so popular, there wasn't room for everyone. "I've got an idea!" said Cyw.

4. "Cewch chi aros yn y tŷ!" meddai hi, cyn arwain y fuwch goch gota, y chwilen a'r morgrug i'r tŷ. Daeth y falwoden hefyd, ond yn araf iawn, iawn.

4. "You can stay in the house!" she said, before leading the ladybird, the beetle, and the ants inside. The snail was coming too, but very, very slowly.

5. Dywedodd Cyw wrth y trychfilod am ddefnyddio'r ystafell fyw fel gwesty a gwneud eu hunain yn gartrefol. Roedd pawb yn ddiolchgar iawn.

5. Cyw told the bugs use the living room as a hotel and to make themselves at home. Everyone was very grateful.

6. Aeth Cyw a Triog i'r gegin i gael tamaid i'w fwyta ar ôl yr holl waith caled. Wnaethon nhw ddim sylwi nad oedd y falwoden wedi cyrraedd yr ystafell fyw.

6. Cyw and Triog went to the kitchen to have a bite to eat after all their hard work. They didn't notice that the snail hadn't reached the living room.

7. Ar ôl bwyta dywedodd Triog wrth Cyw ei bod wedi blino ac am fynd i'r gwely am ychydig. Aeth Triog i fyny'r grisiau ac aeth Cyw i ofalu bod y trychfilod yn hapus.

7. After eating, Triog told Cyw she was tired and wanted to go to bed for a while. Triog went upstairs and Cyw went to make sure the bugs were happy.

8. Roedd yr ystafell fyw yn llawn trychfilod. Ond roedd pawb yn hapus ac yn llawn cyffro ar ôl cael rhywle cyfforddus i swatio.

8. The living room was full of bugs. But everyone was happy and excited to have somewhere cozy to settle.

9. Yn sydyn, clywodd Cyw floedd yn dod o'r llofft. Aeth ar frys i fyny'r grisiau i chwilio am Triog. Beth oedd yn bod?

9. Suddenly, Cyw heard a shout coming from upstairs. She rushed up to look for Triog. What was wrong?

10. Roedd Triog wedi neidio i'r gwely heb sylwi fod rhywbeth yn y gwely'n barod... cragen! Wrth i Triog a Cyw edrych yn ofalus ar y gragen, daeth dwy lygad gysglyd i'r golwg.

10. Triog had jumped into bed without noticing something was already there... a shell! As Triog and Cyw looked carefully at the shell, two sleepy eyes appeared.

11. Y falwoden oedd yno! Roedd hi wedi cyrraedd yn hwyr ac wedi mynd i swatio yng ngwely Triog. "Mae'n ddrwg gen i!" meddai'r falwoden fach.

11. It was the snail! She had arrived too late to see which room the bugs were in, so she had snuggled up in Triog's bed. "I'm sorry!" said the little snail.

12. Doedd dim ots gan Triog. Roedd digon o le yn y gwely i'r falwoden a hi gael gorwedd. Cafodd y criw tipyn o sioc ar ôl dod adre a gweld bod y tŷ i gyd yn westy trychfilod!

12. Triog didn't mind. There was plenty of room in the bed for both of them to snuggle. The gang got quite a shock when they came home and saw that the whole house had become a bug hotel!